

Sylfaen
Foundation

Cynradd - Ysgol Gyfan
Primary - Whole School

Cynradd - Dosbarth Unigol
a Grŵp Blydyddyn
Primary - Individual class
and Year Group

Uwchradd
Secondary

Traws-gyfnod
Cross-phase

Ysgol Arbennig
a Darpariaeth Amgen
Special School and
Alternative Provision

EUSTORY

2024 MANYLION A CHANLLAWIAU'R GYSTADLEUAETH

Cofrestru

Bydd angen i chi gwblhau'r **ffurflen gofrestru** erbyn **Dydd Gwener 26ain Ionawr 2024** i gofrestru'ch bwriad i ymgeisio yn y gystadleuaeth hon.

CANLLAWIAU

Mae **chwe adran** i'r canllawiau hyn:

Beth i'w wneud i ymgeisio yn y Gystadleuaeth yn 2024

Beth sydd ei angen i ymgeisio yn y gystadleuaeth?

Beth sy'n digwydd pan fydd y beirniaid yn ymweld ag ysgol i weld ei hymgais yn y gystadleuaeth?

Holiadur Athro

Meini Prawf Beirniadu

Rhestr Wirio gyflym derfynol

BETH I'W WNEUD I YMGEISIO YN Y GYSTADLEUAETH YN 2024

erbyn Dydd Gwener 26ain Ionawr 2024	Cofrestru ar-lein gan ddefnyddio'r Ffurflen Gofrestru	DOLEN I'R FFURFLEN
erbyn 15 Marwth 2024	Cyflwyno Holiadur Athro wedi ei gwblhau a dau ffotograff sy'n cydymffurfio â GDPR. Ni ddylai'r lluniau gynnwys delweddau o'r dysgwyr. Gorau oll os byddant yn ddau lun JPEG.	DOLEN I'R HOLIADUR ATHRO Cyfrinair: MYDGWHSI2021
yn y cyfnod rhwng 10 - 26 Ebrill 2024	Sicrhau bod y cais i'r gystadleuaeth ar gael yn eich ysgol ar gyfer ymweliad y beirniaid.	Bydd beirniaid yn cysylltu yn uniongyrchol ag ysgolion yn y cyfnod 10 -26 Ebrill 2024 i wneud y trefniadau.


BETH SYDD EI ANGEN I YMGEISIO YN Y GYSTADLEUAETH

Yn ystod y blynyddoedd mae'r gystadleuaeth wedi bod ar sawl ffurf. Does dim templed, na ffurf ffafriedig ar gyfer y prosiectau, ond rhaid i'r prif ffocws fod ar y Dreftadaeth Gymreig. Mae llawer o syniadau ar y wefan ac yn y meini prawf beirniadu am agweddau gwahanol ar y thema gyffredinol honno, ac mae'r gystadleuaeth yn awyddus i gefnogi amrywiaeth yn y pynciau a drafodir. Beirnedir pob prosiect ar sail y Meini Prawf Beirniadu, gan gymryd oedran a gallu'r dysgwyr i ystyriaeth.

Mae'r gystadleuaeth yn awyddus i hybu ymchwil, casglu a dadansoddi deunyddiau, a gwerthuso ffynonellau, barnau a dehongliadau. Bydd gan y beirniaid ddiddordeb ym mhrosesau'r dysgu yn ogystal â'r prosiect terfynol a gynhyrchir ganddynt. Mae'r gystadleuaeth yn cefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru trwy fod yn gyfrwng naturiol i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau craidd ac yn ehangach. Bydd yr effaith a gaiff y prosiect, ar y dysgwyr ac ar gymuned ehangach yr ysgol a hyd yn oed y tu hwnt i hynny, yn agwedd y bydd y beirniaid yn edrych arni.

Ymhlith cynnyrch y prosiectau yn y gorffennol mae llyfrynau, arddangosfeydd, perfformiadau drama, gwaith celf, ffilmau, animeiddiadau, caneuon a gweithiau cerddorol, neu gyflwyniadau trwy dechnoleg ddigidol.





Sylfaen
Foundation

Cynradd - Ysgol Gyfan
Primary - Whole School

Cynradd - Dosbarth Unigol
a Grŵp Blwyddyn
Primary - Individual class
and Year Group

Uwchradd
Secondary

Traws-gyfnod
Cross-phase

Ysgol Arbennig
a Darpariaeth Amgen
Special School and
Alternative Provision

EUSTORY

2024 MANYLION A CHANLLAWIAU'R GYSTADLEUAETH

BETH SY'N DIGWYDD PAN FYDD BEIRNIAD YN YMWELD AG YSGOL I WELD EI HYMGAIS YN Y GYSTADLEUAETH?

Mae holl feirniaid y gystadleuaeth yn wirfoddolwyr ymroddedig sy'n brofiadol ym maes addysg treftadaeth. Mae llawer ohonynt yn gyn-athrawon. Bydd y beirniad (neu'r beirniaid - gall fod dau) a bennwyd ar eich cyfer yn cysylltu â chi yn ystod y cyfnod 13eg-24ain Mawrth i drefnu ymweliad ysgol i weld eich prosiect. Bydd ymweliad gan amlaf yn para tua 3 awr ond mae hyn yn hyblyg, a gellir trefnu hyn rhwng y beirniad a'r ysgol.


Yn nodweddiadol, tra yn yr ysgol, bydd y beirniad eisiau gweld cymaint â phosibl o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd a'r deunyddiau a gynhyrchwyd ar gyfer y cais a gall gynnwys y canlynol, fel bo'n briodol:

- gwaith ysgrifenedig a chelf y dysgwyr;
- ffotograffau / cofnod o ddiwyddiadau a ymgymerodd y dysgwyr wrth gynllunio, paratoi ac ymchwilio'r prosiect;
- ffotograffau (neu gofnodion eraill) o ymweliadau a wnaed gan y dysgwyr neu ymwelwyr / arbenigwyr a'r ysgol;
- perfformiadau gan fyfyrwyr o ganeuon, dramâu, dawnsfeydd a.y.b. yn gysylltiedig â'r prosiect;
- arddangosfeydd, gemau neu animeiddiadau gan y dysgwyr;
- ffilmiau neu fideos gan y dysgwyr;
- arteffactau a ddefnyddiwyd neu o waith y dysgwyr;
- tystiolaeth megis dogfennau cynradd ac eilaidd, deunydd neu ddelweddau a gofnodwyd ac a ddefnyddiwyd gan y dysgwyr yn eu hymholiadau ac wrth iddynt ddod i'w casgliadau;
- unrhyw ffyrdd y cafodd y prosiect ei rannu o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach ac effaith hyn.

Siarad â dysgwyr

Un o agweddau mwyaf dymunol a defnyddiol ymweliad ysgol yw pan gaiff y beirniad gyfle i siarad â'r dysgwyr fu'n rhan o'r prosiect ynglŷn â'r hyn wnaethon nhw a'u profiad wrth ymwneud â'r prosiect. Weithiau grŵp bychan o ddysgwyr fydd yna, neu gall fod yn ymweliad i wrando ar ddisbarthiadau cyfan - dylid trefnu hyn rhwng y beirniad a'r ysgol. Efallai y bydd y beirniad yn gofyn cwestiynau fel y rhain (gan gymryd i ystyriaeth y math o brosiect, oedran a gallu'r dysgwyr a.y.b.):

1. Beth yw teitl y prosiect ac am beth mae e?
2. Sut / pam y dewiswyd y prosiect hwn?
3. Pwy sydd wedi bod yn ymwneud ag astudio'r prosiect hwn o fewn yr ysgol?
4. Pwy sydd wedi bod yn gyfrifol am gynhyrchu'r gwaith y gallwn ni ei weld?
5. Beth ydych chi fwyaf balch ohono?
6. Fuo chi'n cyfweled unrhyw un o'r tu allan i'r ysgol, megis rhieni neu deidiau / neiniau?
7. Pa fath o bethau gawsoch chi hyd iddynt trwyddyn nhw?
8. Fu unrhyw un yn eich helpu o'r tu allan i'r ysgol, megis hyfforddwr drama neu arbenigwr?
9. Pa rannau o'r prosiect sy'n well oherwydd hyn?
10. Dwedwch wrthon ni beth ydych chi wedi ei ddarganfod / ddysgu o [rhoch bwnc y prosiect yma]. Dechreuwch trwy ddweud beth rydych chi fwyaf cyffrous am ei rannu gyda ni.
11. Pa fath o ffynonellau ddefnyddioch chi i gaffael gwybodaeth amdano?
12. Oedd rhai o'r ffynonellau yn fwy defnyddiol nag eraill? Pam felly?
13. Oedd modd i chi ail-wirio, pan nad oeddech yn sicr am rai o'ch ffynonellau?
14. A wnaethoch chi ddarganfod bod y stori yma (pwnc y prosiect) wedi ei dweud un ffordd gan rai pobl a ffordd wahanol gan bobl eraill? Beth oedd eich barn am hynny? Oeddech chi'n gallu egluro pam hynny?



Sylfaen
Foundation

Cynradd - Ysgol Gyfan
Primary - Whole School

Cynradd - Dosbarth Unigol
a Grŵp Blwyddyn
Primary - Individual class
and Year Group

Uwchradd
Secondary

Traws-gyfnod
Cross-phase

Ysgol Arbennig
a Darpariaeth Amgen
Special School and
Alternative Provision

EUSTORY

2024 MANYLION A CHANLLAWIAU'R GYSTADLEUAETH

15. Sut benderfynoch chi beth/ pwy i'w gredu a pha ffynonellau i'w defnyddio i ddod i'ch casgliadau?
16. Ffuch chi'n gweithio mewn grwpiau yn bennaf ar y prosiect? Neu a ffuch chi'n gweithio ar eich pen eich hun yn bennaf?
17. I ba gasgliadau ddaethoch chi a'r dysgwyr eraill?
18. Ydych chi'n credu i chi ddod i gasgliadau synhwyrol a da?
19. Oedd pob un yn y grŵp neu'r dosbarth yr un mor gyffrous â chi am y prosiect?
20. Beth oedd y peth mwyaf rhyfeddol? Neu'r hyn â'ch diddorodd fwyaf? Pam?
21. Ydych chi'n meddwl eich bod yn deall mwy am (fel bo'n briodol – diwylliant lleol a / neu Gymreig, y Gymraeg, chwaraeon, gwyddoniaeth a thechnoleg, hanes menywod, hanes plant) trwy wneud y prosiect hwn?
22. Pa sgiliau ydych chi'n meddwl yr ydych chi wedi gallu eu datblygu trwy astudio'r prosiect hwn? Er enghraifft, ydych chi wedi dysgu mwy nag a wyddech chi cynt am gyfansoddi barddoniaeth, neu am drin data, neu am ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol?
23. Oedd y prosiect hwn yn cysylltu â phynciau a meysydd eraill yn ogystal â hanes? Er enghraifft, cerdd, mathemateg, drama neu wyddoniaeth?
24. A lwyddoch chi i rannu'r prosiect gyda dysgwyr eraill yn eich ysgol? Sut wnaethoch chi hynny?
25. Ydych chi'n meddwl y dylai pobl eraill yng Nghymru – plant mewn ysgolion neu oedolion – wybod mwy am y prosiect? Pam?

Efallai y bydd beirniaid ac athrawon yn gofyn cwestiynau ychwanegol i annog dysgwyr i rannu cymaint o wybodaeth â phosibl, er enghraifft gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Ymhlith enghreifftiau posibl mae: 'Dwedwch fwy wrtho i', 'Pam ydych chi'n meddwl hyn'na?', neu 'Beth yw eich barn am...?' neu 'Sut oedd X yn gwneud i chi deimlo?'

Nodwch na ddylid gadael beirniad ar ei ben ei hun gyda dosbarth neu grŵp o ddisgyblion. Dylai cynorthwydd dysgu neu athro fod gyda'r beirniad drwy'r amser.


Y ddau ffotograff

Rydym yn gofyn am ffotograffau sy'n cynnwys delweddau sy'n adlewyrchu eich prosiect orau. Cyflwynwch y rhain erbyn **Dydd Gwener, 15ain Mawrth 2024** (ynghyd â'ch Holiadur Athro wedi ei gwblhau, gan ddefnyddio'r un ddolen ar y wefan), os gwelwch yn dda. Gorau oll os cyflwynir y rhain fel dau ddarlun JPEG o ansawdd da. Nodwch enw llawn eich ysgol yn enw'r ffeil o.g.y.dd.

Gwarchod data: Ni ddylai'r ffotograffau gynnwys delweddau o'r disgyblion nac unrhyw ddata arall sy'n gynnwysedig dan GDPR. Peidiwch ag ychwanegu testun at y lluniau. Bydd y delweddau hyn yn rhan o gyflwyniad Pwerbwnt a ddangosir yn Seremoni Wobrwyo MYDG a chânt eu cyhoeddi ar wefan MYDG. Gall y ffotograffau hyn gael eu defnyddio mewn man arall ar wefan MYDG, neu mewn cyhoeddustrwydd yn ymwneud â'r Seremoni Wobrwyo a / neu MYDG yn gyffredinol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol) ac/neu yn neunyddiau cyhoeddus eraill MYDG yn y dyfodol.

HOLIADUR YR ATHRO

Pwrpas yr holiadur hwn yw galluogi athrawon i gyflwyno gwybodaeth am y prosiect neu'r ysgol yr hoffent i'r



Sylfaen
Foundation

Cynradd - Ysgol Gyfan
Primary - Whole School

Cynradd - Dosbarth Unigol
a Grŵp Blwyddyn
Primary - Individual class
and Year Group

Uwchradd
Secondary

Traws-gyfnod
Cross-phase

Ysgol Arbennig
a Darpariaeth Amgen
Special School and
Alternative Provision

EUSTORY

2024 MANYLION A CHANLLAWIAU'R GYSTADLEUAETH

beirniad wybod amdano efallai, cyn ymweliad y beirniad. Mae'n bwysig fod ysgolion yn teimlo eu bod wedi gallu cyflwyno cymaint o wybodaeth ag y dymunant, yn enwedig unrhyw beth y teimlant na chaiff ei adlewyrchu yn ddigonol yn ymweliad y beirniad, ac mae hyn yn sicrhau bod y broses feirniadu yn gynhwysfawr a theg. Rydym yn cydnabod bod hyn yn waith ychwanegol i athrawon, ac yn ddiolchgar am yr amser a rydd athrawon iddo. Cwblhewch ac uwch-lwythwch eich Holiadur Athro erbyn

Dydd Gwener 15ain Mawrth 2024 o.g.y.dd.

[DOLEN I'R HOLIADUR ATHRO](#) **Cyfrinair:** MYDGWHSI2021

MEINI PRAWF BEIRNIADU

Enw'r ysgol:


Teitl y prosiect:

Crynodeb byr o'r prosiect mewn 100 gair neu lai:

Cwestiynau

1. Faint o ddysgwyr gymerodd ran, a faint oedd eu hoedran?
2. Ydy hwn yn brosiect ysgol gyfan, un dosbarth, clwb a.y.b.?
3. Pa agweddau ar y prosiect, neu'r dulliau a ddefnyddiwyd, yr ydych chi'n eu hystyried yn wreiddiol neu'n arloesol?
4. Sut mae'r prosiect wedi cefnogi a datblygu Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru h.y.
 - ~ Fel dysgwyr uchelgeisiol, galluog?
 - ~ Fel unigolion iach, hyderus?
 - ~ Fel cyfranwyr mentrus, creadigol?
 - ~ Fel dinasyddion egwyddorol, gwybodus?
5. Ydy'r prosiect ar gael ar-lein? E.e. ar wefan yr ysgol? Neu a oes gan y prosiect ei wefan ei hun? Rhannwch y dolenni os gwelwch yn dda.
6. Nodwch yma unrhyw beth arall yr hoffech dynnu sylw'r beirniaid ato, o.g.y.dd.

Bydd beirniaid yn defnyddio'r meini prawf canlynol, yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniant trwy'r



Sylfaen
Foundation

Cynradd - Ysgol Gyfan
Primary - Whole School

Cynradd - Dosbarth Unigol
a Grŵp Blydyddyn
Primary - Individual class
and Year Group

Uwchradd
Secondary

Traws-gyfnod
Cross-phase

Ysgol Arbennig
a Darpariaeth Amgen
Special School and
Alternative Provision

EUSTORY

2024 MANYLION A CHANLLAWIAU'R GYSTADLEUAETH

Holiadur Athro ac yn ystod yr ymweliad ysgol i weld y prosiect. Mae'r beirniaid yn aelodau o bwyllgor MYDG neu'n arbenigwyr a chanddynt brofiad o addysg treftadaeth. Efallai y bydd cynrychiolwyr y noddwyr yn cymryd rhan ym meirniadu'r prosiectau hefyd. Caiff ceisiadau eu marcio allan o gant am yr agweddau canlynol o'r prosiect (gan gymryd i ystyriaeth oedran a gallu'r dysgwyr):

1. Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Chynnwys y Prosiect

a) Y graddau y mae cynnwys y prosiect yn ffocysu ar faterion treftadaeth arwyddocaol yng Nghymru. Caiff y canlynol ystyriaeth (fel bo'n briodol):

- **Gwreiddioldeb** y prosiect neu'r ymdriniaeth;
- **Arwyddocâd** y cyfraniad i ymwybyddiaeth disgyblion o faterion treftadaeth lleol a / neu Gymreig (er enghraifft: diwylliant lleol a / neu Gymreig, y Gymraeg, chwaraeon, gwyddoniaeth a thechnoleg, hanes menywod, hanes plant. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, a gall prosiectau, ac y maent yn aml, ffocysu ar un ardal, ac o fewn ysgol, cymuned neu gyd-destun ehangach megis Cymru, yn unig.)

Dyraniad marciau am yr agwedd hon: 20

b) Yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillodd y disgyblion trwy gyfrwng y prosiect.

- Y graddau y mae disgyblion wedi caffael **gwybodaeth fanwl a chywir**;
- Y graddau y mae disgyblion yn **defnyddio'r wybodaeth hon** a'r ddealltwriaeth ohoni wrth lunio esboniadau, dolenni a chysylltiadau o fewn y prosiect ac agweddau ehangach o'r dreftadaeth Gymreig;
- Pa mor dda y mae'r prosiect wedi gwella dealltwriaeth dysgwyr o **ddehongliadau a chynrychioliadau** (lle bo'n briodol).

Dyraniad marciau am yr agwedd hon: 25

2. Datblygu Sgiliau

a) Sgiliau ymholi.

- Ystod, mathau, ansawdd a pherthnasedd y **dystiolaeth** a ystyriwyd;
- Ystod ac addasrwydd y **cwestiynau** a ofynnwyd a'r ymholiadau yr aeth y dysgwyr ar eu trywydd;
- Y graddau y mae'r dysgwyr wedi datblygu **eu syniadau a'u meddyliau eu hunain a'r dulliau a ddefnyddion nhw**;
- Dilysrwydd a chymhlethdod (yn briodol i'r oedran) y **barnau a'r casgliadau** y daethant iddynt;
- Maint **ymwneud asiantaethau allanol** â'r prosiect (ee. arbenigwyr allanol) a sut y gwnaeth dysgwyr ddefnydd o hyn.

Dyraniad marciau am yr agwedd hon: 25

b) Datblygu sgiliau ehangach.


Ystyriwch o.g.y.dd. (lle bo'n briodol) sut y mae'r prosiect wedi cefnogi a datblygu sgiliau'r dysgwyr:

- Fel dysgwyr **uchelgeisiol, galluog**;
- Fel unigolion **iach, hyderus**;
- Fel cyfranwyr **mentrus, creadigol**;
- Fel dinasyddion **egwyddorol, gwybodus**;
- O weithio'n **annibynnol** ac o **gydweithio**;
- **Ar draws y cwricwlwm** trwy gysylltu â meysydd fel cerddoriaeth, rhifedd a llythrennedd (er enghraifft);
- Mewn **TGCh**.

Dyraniad marciau am yr agwedd hon: 10

3. Effaith

Effaith y prosiect ar ddysgwyr.



Sylfaen Foundation
Cynradd - Ysgol Gyfan Primary - Whole School
Cynradd - Dosbarth Unigol a Grŵp Blydyddyn Primary - Individual class and Year Group
Uwchradd Secondary
Traws-gyfnod Cross-phase
Ysgol Arbennig a Darpariaeth Amgen Special School and Alternative Provision
EUSTORY

2024 MANYLION A CHANLLAWIAU'R GYSTADLEUAETH

- Pa mor dda yr oedd y dysgwyr **wedi ymwneud** â'r prosiect;
- Y graddau y mae'r prosiect wedi **ysbrydoli, ysgogi a chyffroi** dysgwyr (ac eraill os yn briodol);
- Y tebygolrwydd y caiff y prosiect ei **ddatblygu ymhellach** neu ei ddefnyddio gan yr ysgol yn y dyfodol;
- Rhannu, codi ymwybyddiaeth ac effaith ehangach y prosiect y tu hwnt i'r ysgol, gyda rhieni/ gofalwyr; y gymuned leol, y cyfryngau cymdeithasol, o fewn Cymru a thu hwnt.

Dyranriad marciau: 20

RHESTR WIRIO GYFLYM DERFYNOL

Eitem	Dyddiad cyflwyno	Tic
Ffurflen gofrestru	26ain Ionawr 2024	<input type="checkbox"/>
Holiadur Athro	15ain Mawrth 2024	<input type="checkbox"/>
2 lun sy'n cydymffurfio â GDPR	15ain Mawrth 2024	<input type="checkbox"/>
Ymweliad ysgol gan feirniad	10eg-26ain Ebrill 2024	<input type="checkbox"/>